**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL DROS LYWODRAETHU AC EFFEITHLONRWYDD)**

Cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Lywodraethu ac Effeithlonrwydd) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Iau Hydref 22, 2009 am 5.00 p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr H H Evans, R W Hughes, H Ll Jones, G M Kensler, P J Marfleet, a J Thompson-Hill.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L. Jones) Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Mr Ian Jeffcott a Mr Tim Lewindon (Ymgynghorwyr)

**YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J Bellis, J Chamberlain-Jones, R W Hughes a P W Owen.

**RHAN 1**

**422 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw faterion brys.

**423 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd ar Hydref 16, 2009.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Hydref 16, 2009 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.*

**424 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw faterion brys

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn golygu datgeliad gwybodaeth eithriedig iddynt fel arall fel y'i diffinnir ym mharagraffau12, a 13 Rhan 4 Atodlen12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**425 PENODIAD CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL DROS LYWODRAETHU AC EFFEITHLONRWYDD – RHESTR FER DERFYNOL**

Adroddodd ymgynghorwyr y Cyngor bod pedwar ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu a rhoddwyd trosolwg o'r broses a'r ymarferiadau yr ymgymerwyd â nhw. Yn ystod y dydd fe aseswyd yr ymgeiswyr dros ystod o ffactorau'n cynnwys cyfweliad technegol a rhyngweithio gydag aelodau'r Panel ac Arweinwyr Grŵp. Fe ymatebodd yr ymgynghorwyr i gwestiynau a godwyd gan y Panel ynglŷn â'r broses a'r adborth ar bob ymgeisydd. Fe ystyriodd y Panel bob ymgeisydd a daethpwyd i'r casgliad y dylai un, yn ôl teilyngdod, fynd ymlaen i gyfweliad terfynol gan y Cyngor Llawn.

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd ymgeisydd 2 i gyfweliad terfynol gan y Cyngor Llawn ar ddydd Gwener Hydref 23, 2009.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 p.m.

*********